Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Fframwaith Cyffredin ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 13 Awst 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/42 |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch;<br>Penaethiaid colegau addysg bellach;<br>Arweinwyr dysgu oedolion yn y gymuned mewn awdurdodau lleol;<br>Deiliaid contract prentisiaeth |
| **Ymateb erbyn:** | Nid oes angen ymateb |
| **More information:** | Sam Bowen \| em.cynhwysiant@medr.cymru |


**Crynodeb:**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi arweiniad i ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru er mwyn cefnogi ffordd fwy cyson o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant. Mae'r Fframwaith yn cynnwys dull Map Cymorth cyffredin, er mwyn helpu dysgwyr i ddeall y cymorth sydd ar gael, ac yn cefnogi dull darparwr cyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cynnwys

Cyflwyniad a chwmpas y Fframwaith ........ 2
Egwyddorion ac elfennau craidd y Fframwaith ........ 3
Datblygu Map Cymorth ........ 4
Dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ........ 5
Map Cymorth Enghreifftiol ........ 6
Gwreiddio dull darparwr cyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant ........ 8
Diffiniadau ........ 10
Crynodeb o'r Asesiad Integredig o'r Effaith ar Gydraddoldeb ........ 10

## Cyflwyniad a chwmpas y fframwaith

1. Yn 2024, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru y [datganiad o flaenoriaethau strategol](#) ar gyfer addysg drydyddol, ymchwil ac arloesi. Roedd un o'r blaenoriaethau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Medr greu fframwaith cyffredin ar gyfer cymorth iechyd meddwl a llesiant ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol ac ymgysylltu â darparwyr er mwyn ei wreiddio yn eu polisïau a'u harferion, gan sicrhau bod pob dysgwr yn cael cymorth cyson, cyn belled ag y bo'n ymarferol, gan wasanaethau iechyd meddwl ei ddarparwr ac yn deall lefel sylfaenol y cymorth y gall ddisgwyl ei gael yn y maes hwn.

2. Yr hyn a geir yn y ddogfen hon yw'r fersiwn ddrafft o'r Fframwaith Cyffredin ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant mewn addysg drydyddol yng Nghymru, a fydd ar waith o fis Medi 2026 ymlaen.

3. Mae'r Fframwaith wedi'i ddylunio i gefnogi dull darparwr cyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant drwy alluogi darparwyr addysg uwch, addysg bellach, prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned i'w roi ar waith mewn modd cymesur.

4. Nid yw'n cyflwyno gofynion rheoleiddio newydd, nac yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddisodli trefniadau sydd eisoes yn cefnogi iechyd meddwl a llesiant dysgwyr. Bwriedir i'r Fframwaith helpu darparwyr i adolygu, cyfleu ac atgyfnerthu trefniadau lles sydd eisoes ar waith, gan gynnwys drwy weithgarwch hunanwerthuso sy'n gysylltiedig â'r [Amod Lles Staff a Dysgwyr](#). Mae'r egwyddorion sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a dull y Map Cymorth yn cynnig strwythur a rennir er mwyn helpu darparwyr i fynegi a datblygu eu dulliau presennol.

5. Gweledigaeth y Fframwaith yw y bydd pob dysgwr, waeth beth fo'i leoliad, ei oedran neu ei fodd astudio, yn gallu deall pa gymorth sydd ar gael, sut i gael gafael arno, a beth y gall ddisgwyl ei gael gan ei ddarparwr. Ein huchelgais yw y bydd darparwyr yn creu adnodd sydd wedi'i fwriadu ar gyfer dysgwyr o'r enw Map Cymorth er mwyn gwireddu hyn.

6. Mae'r Fframwaith wedi'i ddylunio i ategu trefniadau a chanllawiau presennol darparwyr ac adeiladu arnynt yn hytrach na'u disodli. Ni fydd disgwyl i ddarparwyr greu strwythurau cwbl newydd lle bo eu dulliau presennol eisoes yn cefnogi'r profiad dysgwyr a ddisgrifir yn y Fframwaith hwn.

7. Tynnodd y gwaith ymgysylltu â dysgwyr a wnaed yn ystod y broses o ddatblygu'r Fframwaith sylw at awydd am wybodaeth gliriach am y cymorth sydd ar gael, sut i gael gafael arno, a beth i'w ddisgwyl wrth ofyn am help.

8. Mae'n debygol y bydd rhoi'r Fframwaith ar waith yn effeithiol yn cynnwys gweithio gyda GIG Cymru, awdurdodau lleol, cyflogwyr a phartneriaid eraill yn y trydydd sector, gan gydnabod cyfrifoldebau a rennir am gefnogi llesiant dysgwyr.

9. Nid yw'r Fframwaith yn rhagnodi modelau cyflawni, strwythurau sefydliadol na threfniadau staffio. Bydd darparwyr yn gallu penderfynu ar y ffyrdd gorau o gyflawni'r deilliannau hyn gan adlewyrchu eu cyd-destun, eu poblogaeth ddysgwyr a'u model cyflwyno.

10. Bydd Medr yn parhau i hyrwyddo, cefnogi a datblygu'r gwaith hwn gyda dysgwyr, darparwyr a phartneriaid. Byddwn yn ymgysylltu â'r sector er mwyn deall sut mae'r Fframwaith yn cael ei ystyried a'i roi ar waith yn ymarferol, ac yn rhannu'r gwersi i'w dysgu a ddaw i'r amlwg er mwyn cefnogi'r gwaith parhaus o ddatblygu profiad dysgwyr cyffredin ledled Cymru. Bydd y Fframwaith yn parhau i ddatblygu dros amser mewn ymateb i weithgareddau ymgysylltu â dysgwyr, profiadau darparwyr a thystiolaeth a ddaw i'r amlwg.

## Egwyddorion ac elfennau craidd y Fframwaith

11. Bydd disgwyl i ddarparwyr ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant yn unol â'r egwyddorion canlynol:

| | |
|---|---|
| **Canolbwyntio ar y dysgwr** | Gall dysgwyr ddeall yn glir pa gymorth sydd ar gael, sut i gael gafael arno a beth i'w ddisgwyl nesaf. Rhaid i'r wybodaeth hon fod ar gael yn ddwyieithog. Caiff data, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr eu defnyddio i adnabod gwahanol anghenion, profiadau a rhwystrau, gan sicrhau bod cymorth iechyd meddwl a llesiant yn deg, yn gynhwysol ac mor ymatebol â phosibl i gymunedau dysgwyr amrywiol. |
| **Darparwr cyfan** | Nid dim ond cymorth llesiant arbenigol sy'n dylanwadu ar lesiant, ond hefyd bethau megis cymorth dysgu, y ffordd y caiff gweithgareddau dysgu eu dylunio, yr amgylchedd, cydberthnasau rhwng y staff a'r myfyrwyr, diwylliant y sefydliad, gofodau ffisegol a digidol, arweinyddiaeth, partneriaethau allanol, a mwy. |
| **Cymesur** | Mae dulliau'n adlewyrchu cyd-destun a phroffil dysgwyr darparwyr, gan gydnabod na fydd pob darparwr yn cynnig yr un lefel na math o ddarpariaeth. |
| **Ffiniau clir** | Mae darparwyr yn cyflawni rôl bwysig o ran hybu llesiant, rhoi cymorth a rheoli risg o fewn eu cylch gwaith. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymryd lle gwasanaethau'r GIG, gwasanaethau gofal cymdeithasol na gwasanaethau statudol eraill, a dylent sefydlu llwybrau clir ar gyfer atgyfeirio, uwchgyfeirio, a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Cydweithredol** | Gweithio gyda phartneriaid megis GIG Cymru, awdurdodau lleol, cyflogwyr a phartneriaid yn y trydydd sector, gan gydnabod y gall capasiti, llywodraethiant a threfniadau gwahanol bartneriaid effeithio ar y ffordd y bydd cydweithio'n digwydd yn ymarferol. |
| **Ymatebol i dystiolaeth** | Caiff trefniadau eu hadolygu a'u gwella dros amser mewn ymateb i dystiolaeth. |

12. Tra bydd darparwyr yn trefnu ac yn rhoi cymorth mewn gwahanol ffyrdd, rydym yn disgwyl i'r Map Cymorth fod yn gyffredin drwy'r holl sector addysg drydyddol yng Nghymru. Mae'r Map Cymorth yn amlinellu strwythur cyffredin ac yn cynnig sylfaen ar gyfer cysondeb, hyd yn oed os bydd gwasanaethau, modelau staffio ac adnoddau yn amrywio.

## Datblygu Map Cymorth

13. Y Map Cymorth fydd y prif adnodd sydd wedi'i fwriadu ar gyfer dysgwyr er mwyn iddynt gael gafael ar gymorth a'i ddefnyddio. Dywedodd dysgwyr yn gyson wrthym eu bod am gael:
    - un lle i ddod o hyd i wybodaeth am gymorth;
    - iaith sy'n syml ac yn hawdd ei deall;
    - esboniadau clir o ba gymorth sydd ar gael;
    - hyder ynglŷn â phwy y gallant siarad â nhw;
    - sicrwydd ynglŷn â'r hyn a fydd yn digwydd ar ôl gofyn am help.

    Dylai darparwyr ystyried y themâu hyn wrth ddatblygu a phrofi eu gwybodaeth eu hunain am gymorth i ddysgwyr.

14. Wrth ddatblygu neu fireinio Map Cymorth effeithiol, mae'n debygol y bydd yn gwneud y canlynol:
    i) esbonio cymorth mewn ffordd sy'n hawdd ei deall;
    ii) gwahaniaethu'n glir rhwng cymorth llesiant a chymorth cynnar beunyddiol, cymorth wedi'i dargedu neu gymorth arbenigol, ac ymateb mewn argyfwng, trefniadau ôl-ymyrryd a phrosesau diogelu;
    iii) sicrhau bod ffiniau'n eglur drwy esbonio'r hyn y gall darparwr ei gynnig a'r hyn na all ei gynnig ac, er enghraifft, sut y gall dysgwyr gael gafael ar wasanaethau allanol, gan gynnwys cymorth clinigol, lle bo hynny'n briodol;
    iv) cysoni pwyntiau uwchgyfeirio â gweithdrefnau diogelu a risg lles;
    v) cynnwys dysgwyr wrth ddatblygu ac adolygu'r Map Cymorth.
    vi) adlewyrchu dull darparwr cyfan, gan gydnabod y caiff iechyd meddwl a llesiant eu cefnogi drwy bolisïau, arferion, amgylcheddau dysgu a threfniadau cymorth ehangach, ac nid dim ond drwy wasanaethau llesiant arbenigol. Mae canllawiau pellach ar gyflawni'r cysondeb hwn i'w gweld yn yr adran '*Gwreiddio dull darparwr cyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant*'.

15. Gellir defnyddio brand lleol, ond dylai'r term Map Cymorth barhau i fod yn weladwy er mwyn helpu i sicrhau cysondeb ledled Cymru.

16. Ni ddylai fod yn ofynnol i ddysgwyr ganfod eu ffordd ar hyd sawl llwybr llesiant, diogelu neu gymorth digyswllt er mwyn deall pa gymorth sydd ar gael. Diben y Map Cymorth yw dod â'r llwybrau hyn ynghyd mewn un lle sydd wedi'i fwriadu ar gyfer dysgwyr.

17. Mewn lleoliadau dysgu seiliedig ar waith, gall darparwyr adlewyrchu llwybrau cymorth sy'n cynnwys cyflogwyr, mentoriaid yn y gweithle neu bwyntiau cyswllt eraill sydd ar gael i ddysgwyr.

18. Mae'n bosibl y bydd darparwyr eisoes yn defnyddio dulliau sefydledig o ymdrin â llesiant, iechyd meddwl, diogelu, asesu risg neu fod yn ystyriol o drawma. Ni fwriedir i'r Fframwaith ddisodli na dyblygu trefniadau effeithiol sydd eisoes ar waith. Dylai darparwyr sicrhau bod eu dulliau presennol yn cyfrannu at y disgwyliadau ynghylch profiad dysgwyr a ddisgrifir yn y Fframwaith hwn.

## Dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr

**Ymgysylltu â dysgwyr**

19. Mae dadansoddiad o'r sylwadau testun rhydd yn Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2025 yn tynnu sylw at bryderon ymhlith dysgwyr ynglŷn â'r ffaith bod cymorth iechyd meddwl yn aneglur, yn anghyson ac yn aml yn weladwy ar adeg argyfwng yn unig, ynghyd â dryswch ynghylch ble i droi a beth fydd yn digwydd nesaf. Mae'r Fframwaith Cyffredin ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant yn ymateb drwy flaenoriaethu eglurder, dealltwriaeth gynnar a phrofiad dysgwyr cyson drwy ddull y Map Cymorth. Er mai dysgwyr addysg uwch yn unig a adlewyrchir gan y dystiolaeth hon; bydd Medr yn ei hategu lle bo modd gan ddefnyddio arolygon dysgwyr newydd mewn perthynas ag addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith ac addysg oedolion er mwyn llywio datblygiad y Fframwaith yn y dyfodol.

20. Drwy weithgareddau ymgysylltu â dysgwyr a gynhaliwyd ar gyfer prentisiaid, dysgwyr addysg bellach a dysgwyr sy'n oedolion, edrychwyd i weld a oedd y Map Cymorth a'r iaith sydd wedi'i bwriadu ar gyfer dysgwyr yn glir, yn ystyrlon ac yn hygyrch mewn gwahanol gyd-destunau addysg drydyddol. Dywedodd dysgwyr yn gyson eu bod am wybod:
    - ble i droi pan fydd angen cymorth arnynt;
    - pwy y gallant siarad â nhw;
    - beth fydd yn digwydd nesaf;
    - pa gymorth y gall darparwyr ei gynnig yn uniongyrchol;
    - pryd y gall fod angen rhannu pryderon er mwyn cadw rhywun yn ddiogel.

21. Hefyd, pwysleisiodd dysgwyr bwysigrwydd defnyddio iaith syml, osgoi terminoleg broffesiynol lle bo modd, a chyflwyno gwybodaeth am gymorth mewn fformatau sy'n hawdd eu deall a'u defnyddio. Mae dull y Map Cymorth a'r enghreifftiau ar gyfer dysgwyr yn y Fframwaith hwn wedi cael eu mireinio mewn ymateb i'r adborth hwn.

**Gwreiddio dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr**

22. Bydd disgwyl i ddarparwyr sicrhau bod esboniadau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer dysgwyr o gymorth yn cael eu datblygu, eu profi a'u hadolygu'n rheolaidd gyda dysgwyr, yn unol â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.

23. Bydd ymgysylltu â dysgwyr wrth lunio, profi a mireinio'r ffordd y caiff y Map Cymorth ei gyflwyno yn galluogi dysgwyr i gyfrannu at benderfyniadau a fydd yn effeithio ar eu profiad.

    Gall hyn gynnwys gweithgarwch cymesur megis:
    i) profi i weld a all dysgwyr esbonio'n ôl, yn eu geiriau eu hunain, yr hyn y byddent yn ei wneud pe bai angen cymorth arnynt;
    ii) asesu dealltwriaeth dysgwyr o'r gwahaniaeth rhwng lefelau cymorth a phryd y gall uwchgyfeirio ddigwydd;
    iii) ceisio ymgysylltu â dysgwyr sy'n llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau ffurfiol, gan gynnwys dysgwyr rhan-amser, dysgwyr seiliedig ar waith neu ddysgwyr sy'n oedolion.

24. Dylai gwybodaeth fod ar gael mewn fformatau sy'n hygyrch ac yn ystyrlon i grwpiau dysgwyr amrywiol, gan gynnwys dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

## Map Cymorth Enghreifftiol

25. Enghraifft esboniadol yn unig a geir isod. Dylai darparwyr addasu'r iaith, y rolau a'r enghreifftiau i adlewyrchu eu cyd-destun lleol gan gadw strwythur a bwriad y Map Cymorth, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

| Profiad dysgwr | Ffyrdd y gallech gael eich cefnogi | Beth allaf i ei ddisgwyl? |
|---|---|---|
| Mae'r dysgwr yn wynebu risg uniongyrchol neu mae mewn argyfwng.<br><br>"*Mae angen i mi gael cymorth brys nawr.*" | • GIG 111 (Pwyso 2)<br>• Gwasanaethau brys (999 pan fydd perygl uniongyrchol)<br>• Gweithdrefnau diogelu neu argyfwng mewnol<br>• Gwasanaethau cymorth mewn argyfwng<br>• Cymorth ar unwaith gan aelod priodol o staff | Bydd diogelwch yn flaenoriaeth. Byddaf yn cael cymorth i ddeall beth sy'n digwydd, pa gamau sy'n cael eu cymryd a phwy sy'n rhan o'r broses. |
| Mae'r dysgwr yn teimlo bod pethau'n drech nag ef, mae'n defnyddio strategaethau ymdopi nad ydynt yn iach neu sy'n beryglus, neu mae'n wynebu anhawster sylweddol.<br><br>"*Mae'n mynd yn anoddach ymdopi â phethau – pa help allaf i ei gael?*" | **Cymorth estynedig**<br>• Adolygiadau neu sgyrsiau llesiant mwy rheolaidd<br>• Cynllunio ar gyfer risg a diogelwch<br>• Mwy o gymorth ymarferol<br><br>**Ymateb cydgysylltiedig**<br>• Cyfarfodydd cymorth<br>• Cydgysylltu rhwng gwasanaethau<br>• Cymorth sy'n cynnwys teulu neu ofalwyr lle bo hynny'n briodol, yn gyfreithlon ac yn rhywbeth y cytunwyd arno<br><br>**Cymorth allanol**<br>• Cyfeirio neu atgyfeirio at wasanaethau arbenigol | Bydd fy nghymorth yn cael ei adolygu'n rheolaidd a bydd rhywun yn helpu i gydgysylltu cymorth pan fydd sawl gwasanaeth yn rhan o'r broses. |
| Mae'r dysgwr mewn gofid parhaus, yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio, yn mynd i'w gragen, neu'n ei chael hi'n anodd aros ar ben pethau.<br><br>"*Rwy'n ei chael hi'n anodd ymdopi, mae angen i mi gael cymorth ac rwyf am wybod beth fydd yn digwydd nesaf.*" | **Pobl y gallaf siarad â nhw**<br>• Tiwtor, asesydd neu bwynt cyswllt penodol ar gyfer cymorth<br>• Cynghorydd cymorth i ddysgwyr<br>• Hyb llesiant/pwynt cyswllt yn y gweithle<br><br>**Cymorth dysgu**<br>• Cynlluniau cymorth dysgu<br>• Addasiadau rhesymol<br>• Trefniadau dysgu neu asesu hyblyg (lle y bônt yn briodol)<br><br>**Cymorth llesiant**<br>• Apwyntiadau â chynghorydd llesiant<br>• Cymorth cwnsela (lle y bo ar gael) | Byddwn yn trafod pa gymorth a allai helpu, yn cytuno ar y camau nesaf ac yn adolygu'r cymorth er mwyn gweld a yw'n gweithio. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cymorth gan gynghorydd iechyd meddwl<br><br>**Cymorth cydgysylltiedig**<br>• Cymorth gan fwy nag un tîm<br>• Cymorth i gael gafael ar wasanaethau'r GIG neu wasanaethau allanol | |
| Mae dysgwr yn teimlo straen, gofid neu hwyliau isel sy'n dechrau effeithio ar ei fywyd a/neu ei allu i ddysgu o ddydd i ddydd.<br><br>*"Mae rhywbeth yn teimlo o'i le – pwy allaf i siarad â nhw a pha gymorth allwn i ei gael?"* | **Pobl y gallaf siarad â nhw**<br>• Tiwtor, asesydd neu bwynt cyswllt penodol ar gyfer cymorth<br>• Cynghorydd cymorth i ddysgwyr<br>• Hyb llesiant/pwynt cyswllt yn y gweithle<br><br>**Help ymarferol**<br>• Cymorth presenoldeb<br>• Cymorth cynllunio astudio a rheoli amser<br>• Cyngor ariannol neu ymarferol<br><br>**Cymorth llesiant**<br>• Sgyrsiau cefnogol<br>• Sesiynau galw heibio llesiant<br>• Cyfleoedd i gael cymorth gan gymheiriaid<br>• Cyfeirio at gymorth ychwanegol | Bydd rhywun yn gwrando, yn fy helpu i ddeall fy opsiynau ac yn esbonio pa gymorth a allai helpu. |
| Mae'r dysgwr yn ymdopi'n dda ac mae am aros yn iach.<br><br>"*Rwy'n iawn ac rwyf am aros yn iach – beth allaf i ei wneud i helpu er mwyn parhau i deimlo fel fy mod i'n ymdopi'n dda?*" | • **Perthyn a chymuned**<br>• Cymunedau dysgwyr a rhwydweithiau cymheiriaid<br>• Clybiau, gweithgareddau a chyfleoedd i wirfoddoli<br><br>**Dysgu ac astudio**<br>• Cymorth dysgu a sgiliau astudio<br>• Gweithgareddau sefydlu a phontio<br><br>**Llesiant a hunangymorth**<br>• Gwybodaeth am lesiant ac adnoddau hunangymorth<br>• Adnoddau a chyrsiau llesiant ar-lein<br>• Gweithdai ar gwsg, gwydnwch, straen neu arferion iach<br><br>**Cymorth ymarferol**<br>• Gwybodaeth am lesiant ariannol<br>• Cyngor gyrfaoedd<br>• Gwybodaeth am wasanaethau cymorth sydd ar gael | Fe allaf i gael gafael ar yr adnoddau hyn unrhyw bryd a dewis yr hyn sy'n gweithio orau i mi. |

## Gwreiddio dull darparwr cyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant

26. Mae'r Map Cymorth yn cynnig eglurder ynglŷn â sut y gall dysgwyr gael gafael ar gymorth. Er mwyn iddo fod yn effeithiol, bydd angen bod gan ddarparwyr hwyluswyr strwythurol priodol ac mae'n debygol y byddant yn defnyddio'r broses hunanwerthuso i lywio'r ddarpariaeth gymorth sydd ynddo. Bydd hyn yn rhan o'r gofyniad i fod â threfniadau, gan gynnwys polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau, sy'n hybu ac yn cefnogi llesiant a diogelwch dysgwyr.

27. Bydd cymorth iechyd meddwl a llesiant ar ei fwyaf effeithiol pan fydd wedi'i wreiddio yn y dysgu, y diwylliant, yr amgylchedd a'r arweinyddiaeth, ac nid yn cael ei drin fel swyddogaeth cymorth arbenigol yn unig.

28. I ategu'r Map Cymorth sydd wedi'i fwriadu ar gyfer dysgwyr, bydd disgwyl i ddarparwyr gynnal llywodraethiant, polisïau, gweithdrefnau a threfniadau cymorth effeithiol sy'n sicrhau y gellir rhoi cymorth yn ddiogel, yn gyson ac mewn ffordd sy'n osgoi achosi niwed neu greu rhwystrau rhag cymorth yn anfwriadol, gan gynnwys:
    - polisïau, arferion a threfniadau sy'n cyd-fynd â dyletswyddau statudol a rheoleiddiol;
    - llwybrau asesu ac uwchgyfeirio y cytunwyd arnynt, a fydd yn cynnwys trefniadau cydgysylltu y cytunwyd arnynt rhwng gwasanaethau cymorth, timau dysgu ac arweinwyr diogelu a staff llety (lle bo hynny'n berthnasol), ond heb fod yn gyfyngedig iddynt;
    - adolygu anghenion dysgwyr, mynediad ac effeithiolrwydd cymorth dros amser, gan ddefnyddio adborth gan ddysgwyr ac unrhyw ddata sydd ar gael;
    - diffiniadau clir o rolau staff;
    - cynlluniau hyfforddi a datblygu staff sy'n seiliedig ar eu rôl o ran hybu llesiant, cydnabod pryderon ac ymateb yn briodol, lle bo hynny'n berthnasol, yn seiliedig ar fatricsau hyfforddiant cydweithredol ar gyfer y sector;
    - trefniadau ar gyfer gweithio gyda'r GIG, cyflogwyr a phartneriaid yn y trydydd sector.

29. Wrth ddatblygu Map Cymorth clir, bwriedir i'r cwestiynau isod gefnogi darparwyr. Ni fydd disgwyl i ddarparwyr ateb pob cwestiwn yn yr un ffordd ac mae'n bosibl y byddant yn nodi blaenoriaethau gwahanol yn dibynnu ar eu cyd-destun, eu poblogaeth ddysgwyr a'u model cyflwyno.

### Yr amgylchedd dysgu ac asesiadau

i) A yw'r dysgu, yr addysgu a'r arferion a'r dyluniadau asesu yn cydnabod adegau rhagweladwy o bwysau a phontio e.e. cyfnodau asesu, cyfnodau pontio, newidiadau i statws astudio?

ii) A yw'r staff academaidd a'r staff addysgu'n hyderus wrth esbonio sut mae cymorth llesiant yn eistedd ochr yn ochr â chymorth dysgu neu gymorth academaidd?

iii) A yw addasiadau rhesymol a hyblygrwydd yn cael eu hesbonio'n glir a'u rhoi ar waith yn gyson?

iv) A yw cymorth gyrfaoedd, cyflogadwyedd a chynnydd yn cyfrannu at lesiant y dysgwyr drwy helpu'r dysgwyr i ddeall a chynllunio eu camau nesaf?

### Diwylliant dysgu a chydberthnasau

v) A yw'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel i godi pryderon heb ofni stigma neu ganlyniadau negyddol?

vi) A oes gan y staff a'r dysgwyr adnoddau clir a chyfredol i'w cyfeirio at gymorth GIG Cymru, gan gynnwys GIG 111 (Pwyso 2), a chymorth gan y trydydd sector?
vii) A yw'r staff yn cydnabod sut y gall eu rhyngweithio beunyddiol â'r dysgwyr gefnogi iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol drwy arferion cynhwysol a pharchus sy'n canolbwyntio ar y dysgwr?
viii) A yw'r amgylchedd a'r dulliau cyfathrebu a ddefnyddir yn cydnabod bod iechyd meddwl a llesiant yn berthnasol i'r dysgu?
ix) A gaiff llais y dysgwr ei ddefnyddio mewn modd ystyrlon i lywio'r ffordd y caiff cymorth ac amgylcheddau eu llunio?

**Amgylcheddau ffisegol a digidol**

x) A yw gofodau dysgu ffisegol neu ddigidol, neu ofodau dysgu mewn gweithleoedd, yn hyrwyddo cynhwysiant, cydraddoldeb, hygyrchedd a diogelwch seicolegol?
xi) A yw'r dysgwyr sy'n astudio ar-lein, mewn gweithleoedd neu mewn lleoliadau yn y gymuned yn gallu eu hadnabod eu hunain mewn negeseuon am lesiant ac a oes ganddynt yr un lefel o fynediad at gymorth?

**Galluoedd staff a ffiniau**

xii) A yw'r staff yn deall eu rôl yn y Map Cymorth a phryd i uwchgyfeirio pryderon, gan gynnwys sut a phryd i rannu gwybodaeth frys neu wybodaeth am ddiogelu?
xiii) A oes rolau neu dimau penodol sy'n gyfrifol am ymholiadau ynghylch llesiant dysgwyr?
xiv) A oes llwybrau asesu ac uwchgyfeirio y cytunwyd arnynt ac sy'n cyd-fynd â'r gweithdrefnau diogelu presennol?
xv) A oes trefniadau ar gael i staff sy'n delio ag achosion cymhleth, ac a yw'r rhain wedi cael eu cyfleu'n briodol?
xvi) A oes cydweithio gweithredol rhwng gwasanaethau cymorth, timau dysgu a rolau diogelu?
xvii) A yw partneriaethau allanol (y GIG, y trydydd sector, cyflogwyr) yn cael eu cynnal yn weithredol?
xviii) A yw gweithgareddau hyfforddi a datblygu'r staff yn seiliedig ar eu rôl o ran hybu llesiant, cydnabod pryderon ac ymateb yn briodol?
xix) A yw'r staff yn cael eu hyfforddi i gael sgyrsiau am lesiant sy'n dosturiol ac sydd â ffiniau pendant?

**Arweinyddiaeth a goruchwylio systemau**

xx) A oes perchnogaeth glir gan uwch-aelodau o staff dros drefniadau iechyd meddwl a llesiant?
xxi) A gaiff data eu defnyddio i roi dirnadaeth, monitro galw a mynediad, ac adolygu a gwella eglurder ac effeithiolrwydd dros amser?
xxii) A yw ystyriaethau llesiant wedi'u gwreiddio mewn dyluniadau, amgylcheddau ac arferion dysgu beunyddiol?
xxiii) A gaiff llais y dysgwr a gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr eu defnyddio'n rheolaidd i fireinio dulliau cyfathrebu, llwybrau a chymorth?
xxiv) A oes cyfraniad at weithgarwch dysgu, cydweithio a gwella drwy'r sector cyfan?

## Diffiniadau

30. Diffiniadau o restr termau Medr:

**Iechyd Meddwl:** Cyflwr o lesiant meddyliol sy'n galluogi unigolion i ymdopi â'r pethau mewn bywyd sy'n achosi straen, gwireddu galluoedd, dysgu a gweithio'n dda, a chyfrannu at eu cymuned. Caiff ei ystyried yn hawl dynol sylfaenol sy'n sail i brosesau gwneud penderfyniadau unigol a chyfunol.

**Llesiant Emosiynol:** Gallu unigolion i reoli emosiynau, meithrin cydberthnasau cadarnhaol, a chynnal ymdeimlad o bwrpas a pherthyn. Mae hyn yn cynnwys gwydnwch unigolion a systemau cymorth darparwyr sy'n hybu cydbwysedd.

**Diogelu:** Mesurau y bydd darparwr yn eu rhoi ar waith i amddiffyn dysgwyr a staff rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed, gan gynnwys hyfforddiant, polisïau a gweithdrefnau rhoi gwybod.

**Map Cymorth:** Disgrifiad sydd wedi'i fwriadu ar gyfer dysgwyr o'r cymorth sydd ar gael, sut y gellir cael gafael arno a'r hyn y gall dysgwyr ei ddisgwyl wrth ofyn am help.

**Dull darparwr cyfan:** Dull lle y caiff iechyd meddwl a llesiant eu hystyried mewn perthynas â dysgu, diwylliant, arweinyddiaeth, amgylcheddau a gwasanaethau cymorth drwyddynt draw, yn hytrach na chael eu gweld fel cyfrifoldeb timau cymorth arbenigol yn unig.

## Crynodeb o'r Asesiad Integredig o'r Effaith ar Gydraddoldeb

31. Disgwylir i'r Fframwaith Cyffredin ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar ddysgwyr ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol yng Nghymru. Effeithiau anuniongyrchol cadarnhaol a nodir yn bennaf gan na fydd Medr yn darparu gwasanaethau yn uniongyrchol. Bydd Medr yn adolygu hyn yn flynyddol.

32. Bydd y Fframwaith yn cefnogi profiad o gymorth iechyd meddwl a llesiant sy'n fwy cyson a hygyrch, yn canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr, yn hyrwyddo cyfle cyfartal, yn cyfrannu at well deilliannau llesiant, yn atgyfnerthu llais y dysgwr, ac yn annog dulliau darparwr cyfan sy'n ystyried llesiant mewn perthynas â pholisïau, amgylcheddau dysgu a diwylliant sefydliadau.

33. Bydd dulliau'n amrywio rhwng darparwyr, felly mae'r risgiau posibl yn ymwneud yn bennaf ag amrywioldeb cynnig a chapasiti darparwyr, y bydd Medr yn parhau i'w ystyried fel rhan o weithgareddau ymgysylltu parhaus mewn perthynas â rhoi'r Fframwaith ar waith.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government